# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER 30 TACHWEDD 2022 am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY 30 NOVEMBER 2022 AT 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Alwen Pennant Watkin *(Is-Gadeirydd/Vice Chair)*

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Aled M Jones

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022.

3 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2023/24** (Tudalennau 5 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Carwyn E Jones, Llio A Owen, Dylan Rees, Jeff Evans, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid (ar gyfer Eitem 4)<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) ar gyfer Eitem 5)<br>Hyfforddai AD (AJ) ar gyfer Eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (ar gyfer Eitem 4) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir:-

- 19 Hydref 2021 (Arbennig)
- 25 Tachwedd 2021 (Arbennig)
- 31 Mai 2022

**3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail ei bod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd".**

**4. PENODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD ("PENNAETH DEMOCRATIAETH")**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y

Cyngor/Swyddog Monitro ynglŷn â phenodi swyddog i rôl statudol y Pennaeth Democratiaeth, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2022.

**PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo, yn unfrydol, argymhellion y Pwyllgor Penodiadau i benodi Mr Dyfan Siôn yn Bennaeth Democratiaeth newydd y Cyngor.**

Llongyfarchodd aelodau'r Pwyllgor Mr Siôn ar ei benodiad.

## 5. STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y Strategaeth Datblygu Aelodau, sy'n amlinellu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol mai nod y Strategaeth yw rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu rolau'n effeithlon ac yn effeithiol. Dywedodd fod egwyddorion Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn parhau i atgyfnerthu rhaglen ddatblygu'r Cyngor. Nodwyd hefyd y bydd y rhaglen hyfforddi a datblygu'n cael ei dosbarthu i aelodau'n rheolaidd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am sesiynau hyfforddi fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Gofynnwyd beth yw rôl y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â datblygu aelodau. Dywedodd y Swyddog Monitro fod hawl gan aelodau, o dan y ddeddfwriaeth llywodraeth leol newydd, i gyfarfod datblygu un i un naill ai gyda'r Pennaeth Democratiaeth neu aelod o'r tîm datblygu i drafod eu hanghenion datblygu.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, a mabwysiadu'r Strategaeth Datblygu Aelodau.**

## 6. DISGRIFIADAU RÔL AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar ddisgrifiadau rôl aelodau wedi'u diweddaru ac maent yn seiliedig ar dempledi diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Dywedodd y Swyddog Monitro fod disgwyl i'r Cyngor fabwysiadu'r disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau, aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg, er mwyn paratoi ar gyfer yr adolygiad o Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau CLlLC. Nodwyd y bydd y disgrifiadau rôl yn llywio'r rhaglenni datblygu ar gyfer y Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Swyddog Monitro'n aildrefnu'r "Atebolrwydd" er mwyn rhoi blaenoriaeth i ward pob aelod.**

- **Newid y gair ‘etholwyr’ o dan “Atebolrwydd” a defnyddio term mwy cyffredinol er mwyn cynnwys pawb sy’n byw ac yn gweithio yn ardal y Cyngor.**
- **Sefydlu pam fod y Pwyllgorau Sgiwtini wedi eu cynnwys o dan “Atebolrwydd” yn y disgrifiadau rôl ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor.**
- **Os yw Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn fodlon â’r esboniad, bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo’r disgrifiadau rôl aelodau i’w cyflwyno i aelodau.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2021/22 a 2022/23.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod dyletswydd ar Gynghorau i sicrhau fod trefniadau ar waith er mwyn caniatáu i aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith. Dywedodd nad oes rhaid i aelodau gwblhau adroddiadau blynyddol ond, serch hynny, maent yn cael eu hannog i wneud hynny er mwyn hyrwyddo arfer da a thryloywder.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mai’r bwriad yw cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gyfer 2021/22 ym mis Tachwedd 2022, a chyhoeddi’r adroddiadau ar gyfer 2022/23 ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi’r adroddiad.**
- **Cytuno fod y Pennaeth Democratiaeth Dros Dro yn hysbysu Arweinyddion Grwpiau am yr angen i’w haelodau gyflwyno eu hadroddiadau ar gyfer 2021/22 erbyn 31 Hydref 2022, i’w cyhoeddi ym mis Tachwedd 2022.**
- **Bod aelodau’n defnyddio’r templed adroddiadau, sydd wedi’i gynnwys yn yr adroddiad yn Atodiad A, i gwblhau eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2022/23.**
- **Cytuno ar yr amserlen a gyflwynwyd ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol aelodau ar gyfer 2022/23.**

## 8. AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad statudol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar amseru Pwyllgorau’r Cyngor, y bydd angen i’r Cyngor llawn ei gadarnhau ond y mae angen safbwynt y Pwyllgor hwn arno.

O dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae’n rhaid i’r Cyngor adolygu’r amseroedd y mae cyfarfodydd Pwyllgor yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny’n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd. Nodwyd y daw rheoliadau newydd i rym yn fuan, a bydd rhaid ailadrodd y broses adolygu y flwyddyn nesaf. Bydd y broses honno’n fwy helaeth gan y bydd yn cynnwys hyd cyfarfodydd ac ati.

Anfonwyd holiadur at aelodau, aelodau cyfetholedig, aelodau lleyg a chynrychiolwyr allanol y CYSAG er mwyn derbyn eu safbwyntiau, gydag opsiwn i gychwyn cyfarfodydd am 10.00am, 2.00pm a 6.00pm. Derbyniwyd 17 (48.57%) o ymatebion gan aelodau etholedig. Daethpwyd i'r casgliad fod y mwyafrif o ymatebion a dderbyniwyd o blaid glynu at y trefniadau presennol o gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd.

Bydd angen cynnal trafodaeth bellach ynghylch y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, sydd yn cychwyn am 1.00pm ar hyn o bryd, a'r Pwyllgor Safonau, sy'n cychwyn am 2.00pm; gan fod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn ffafrio amseroedd gwahanol.

Amlygwyd y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos, a chyflwynwyd cynnig i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau yn unig, lle bo modd.

**PENDERFYNWYD:-**

**Gofynnir i'r Cyngor ystyried yr argymhellion a ganlyn a wnaed gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2022:**

- **lle bo modd, cadw'r amseroedd cychwyn presennol ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir (2.00pm); y Pwyllgor Gwaith (10.00am) a phob pwyllgor arall (2.00pm), yn amodol ar y paragraff nesaf isod;**

- **y dylai amseroedd cychwyn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, a'r Pwyllgor Safonau gael eu penderfynu gan y pwyllgorau hynny, ar ôl derbyn cyngor gan eu swyddogion arweiniol;**

- **lle bo modd, dylid cynnal cyfarfodydd pwyllgor ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau; er mwyn helpu i gyfuno gwaith a chyfrifoldebau eraill gyda rôl aelod;**

- **bod y Cyngor yn cymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael tuag at gostau gofal a chymorth personol; a**

- **nodi, yng ngoleuni canllawiau statudol drafft y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi, y bwriedir cynnal adolygiad pellach o amseriad, amlder a hyd cyfarfodydd pwyllgor yn gynnar yn 2024. Bydd yr arolwg drafft a fydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo'n gyntaf gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:15 pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 30 Tachwedd 2022 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2023/24 |
| **Adroddiad gan:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi gwybod am gynigion drafft y Panel ar gyfer 2023 i 2024 |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif Gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Bydd y Panel yn ymgynghori ar ei gynigion drafft ar gyfer 2023 i 2024 tan 1 Rhagfyr 2022. Mae pump o gwestiynau ychwanegol hefyd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad eleni. Mae'r cwestiynau wedi'u hamlinellu o dan y rhannau pethnasol yn yr adroddiad hwn.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023 ac yn weithredol o Ebrill 2023.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Cynigion Drafft y Panel ar gyfer 2023/24

### 2.1 Lefelau'r Taliadau Arfaethedig ar gyfer 2023/24

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r 15 deilydd swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig o 2022/23 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 24 Mai 2022) ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cynigion drafft ar gyfer 2023/24:

| Rhestr Taliadau i Aelodau | 2022-2023 | 2023-2024 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £16,800 | **£17,600** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £53,550 | **£56,100** |
| Dirprwy Arweinydd | £37,485 | **£39,270** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (x 7) | £32,130 | **£33,660** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £25,593 | **£26,400** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £25,593 | **£26,400** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £25,593 | **£26,400** |
| Cadeirydd y Cyngor | £25,593 | **£26,400** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd Grwp yr Wrthblaid fwyaf | £25,593 | **£26,400** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £20,540 | **£21,340** |

### 2.2 Cyflog Sylfaenol

Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith sgriwtini, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2023 i 2024.

Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd hyn yn gynnydd o 4.76%.

| **Cwestiwn Ymgynghori:** |
|---|
| Mae'r Panel wedi parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fel y meincnod ar gyfer pennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau. Mae cynnydd cymesur cyfatebol wedi'i gynnig i aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r Panel wedi parhau i gyfeirio at yr Arolwg ASHE diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2021. Ydych chi'n cytuno y dylai'r elfen cyflog sylfaenol fod yn gysylltiedig â data ASHE 2021? |

## 2.3 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le yn 2023/24, hy cyfanswm o 17 ar gyfer Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

Mae pob uwch gyflog a chyflog dinesig yn cynnwys y cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol rhwng pob rôl yn cael ei gydnabod mewn fframwaith bandiau. Does dim newidiadau i fandiau yn cael eu cynnig eleni. Yn gynnar y flwyddyn nesaf bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan y prif gynghorau i archwilio a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid a sut y mae wedi newid.

| **Cwestiwn Ymgynghori:** |
|---|
| Bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan brif gynghorau i edrych ar p'un a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid, a sut y mae wedi newid, i lywio Penderfyniadau'n y dyfodol. Ydych chi'n fodlon y dylai'r Panel gynnwys yr adolygiad hwn yn ei gynllun gwaith ar gyfer y dyfodol ac adeiladu sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau? |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a delir i aelodau etholedig. Mae pob penderfyniad arall o 2022 i 2023 felly yn dal i sefyll a dylid eu gweithredu yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- Teithio a chynhaliaeth
- Gofal a Chymorth Personol
- Absenoldeb salwch
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol
- Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith
- Cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi
- Aelodau Cyfetholedig

## 3.0 Taliadau tuag at gostau a threuliau Cynghorau Tref a Chymuned

Mae’r Panel yn cynnig y bydd rhaid i bob Cyngor dalu £156 y flwyddyn i’w haelodau tuag at gostau gweithio o adref ac un ai £52 y flwyddyn ar gyfer nwyddau swyddfa ayyb, neu gostau deunydd o’r fath yn llawn.

Efallai y bydd gan y Pwyllgor farn o ran digonolrwydd y cynnig hwn, o gofio’r anawsterau mewn perthynas â recriwtio aelodau cynghorau cymuned.

| **Cwestiwn Ymgynghori** |
| --- |
| Mae’r Panel wedi gwneud newidiadau i sut y caiff costau a threuliau eu talu i aelodau cynghorau cymuned a thref. Ydych chi’n cytuno ag ychwanegu’r elfen “nwyddau traul”? |

## 4.0 Strwythur yr Adroddiadau Blynyddol

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae’r Panel wedi bod yn ystyried strwythur ei adroddiadau a sut y gellir eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb. Daethpwyd i'r casgliad bod llawer o'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn efelychu blynyddoedd blaenorol, yn aml heb newid sylweddol. Ar gyfer yr adroddiad hwn penderfynodd y Panel ganolbwyntio ar y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r cynigion. Felly, bydd mwyafrif y cynnwys a nodir mewn adroddiadau blaenorol yn cael ei ddileu o'r adroddiad a’i osod ar wefan y Panel.

Bydd trefniadau’n cael eu gwneud ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd ar y wefan.

**Cwestiwn Ymgynghori:**

Sut y byddech chi’n dymuno cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad gan y Panel? (dewiswch bob un sy’n berthnasol)

| | |
| --- | --- |
| Crynodeb gyda dolenni at ganllawiau manwl | ☐ |
| Canllawiau hawdd eu defnyddio | ☐ |
| Cwestiynau Cyffredin | ☐ |
| Gwefan | ☐ |
| Y Cyfryngau Cymdeithasol | ☐ |
| Digwyddiadau Gwybodaeth | ☐ |
| Arall | ☐ |

Os arall, rhowch fanylion.

Ydych chi wedi profi unrhyw heriau wrth gael gafael ar ein canllawiau a’n gwybodaeth neu wrth geisio eu deall drwy ein gwefan? Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud pethau’n haws i chi.

## 5.0 Trefniadau Ymgysylltu

Bob blwyddyn mae'r Panel yn ymgysylltu ag aelodau'r cyrff y mae'n pennu lefelau tâl ar eu cyfer ynghyd â sefydliadau eraill. Mae'n gwneud hyn trwy gyfres o gyfarfodydd sydd, ar hyn o bryd, yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn bennaf. Bydd y Panel yn parhau â'r trafodaethau hyn. Maent yn rhoi cyfle i'r Panel archwilio barn am y trefniadau presennol, yr effaith y mae penderfyniadau'n eu cael ar unigolion, sut mae'r trefniadau'n gweithredu'n ymarferol ac unrhyw faterion neu bryderon y mae unigolion am eu codi. Mae hefyd yn gyfle i drafod sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg y gallai fod angen i'r Panel eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

**Cwestiwn Ymgynghori:**

Mae'r Panel yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol dros y flwyddyn nesaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ac adeiladu ei dystiolaeth a'i strategaeth ymchwil. Oes gennych chi unrhyw sylwadau a fyddai'n helpu'r Panel i gynnal y digwyddiadau ymgysylltu hyn?

Er enghraifft, a ydych chi'n ffafrio polau ar-lein, cynnal digwyddiadau ymgysylltu, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb, pa grwpiau ddylai gymryd rhan, sut allwn ni ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl ac ati.

## 6.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried sut y mae'n dymuno ymateb i benderfyniadau drafft y Panel ar gyfer 2023/24 a'r pum cwestiwn ychwanegol.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023/24:
https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2023-2024


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

This page is intentionally left blank